At sylw:
**Y Cyng. Emlyn Dole**
Cadeirydd Cyd-bwyllgor ERW

Gofynnwch am: Y Tîm Craffu
Llinell y Swyddfa Gra 01792 637256
e-bost: scrutiny@swansea.gov.uk
Dyddiad 17 Rhagfyr 2020

Annwyl Gynghorydd Dole

**Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW – 26 Tachwedd 2020**

Hoffai'r Grŵp Cynghorwyr Craffu ddiolch i Gareth Morgans, Ian Altman a Greg Morgan am fod yn bresennol yn ein cyfarfod, am gyflwyno'r wybodaeth y gofynnom amdani, ac am ateb ein cwestiynau. Ysgrifennaf atoch i adlewyrchu safbwyntiau'r cyfarfod hwnnw.

Roeddem yn falch o glywed am y cymorth cadarnhaol y mae ERW wedi'i ddarparu i'r rhanbarth yn ystod y misoedd diwethaf, yn enwedig o ran dysgu ar-lein a dysgu cyfunol, fel ei gilydd, a rhannu arfer da. Dymunol oedd nodi bod yr adnoddau hyfforddi ar-lein a gyflwynwyd wedi cael eu croesawu'n fawr gan athrawon ac arweinwyr ysgolion, ac roeddem o'r farn y dylai'r ffurf hon o gymorth gael ei mabwysiadu a'i datblygu ymhellach mewn unrhyw fodel rhanbarthol newydd.

Trafodwyd y model(au) posibl ar gyfer ERW yn y dyfodol, gan gynnwys y cysyniad o gomisiynu gweithgareddau. Roeddem o'r farn na ddylai'r Awdurdodau Lleol hynny a fydd yn ffurfio craidd unrhyw gytundeb ar y cyd yn y dyfodol fod ar eu colled o ran sefydlu costau craidd canolog a pharhaus wrth ddarparu gwasanaethau comisiynu, o bosibl, i Awdurdodau Lleol eraill. Teimlwyd y dylai unrhyw awdurdod lleol sy'n comisiynu gwasanaethau gan gonsortiwm rhanbarthol yn y dyfodol dalu swm teg am y gwasanaethau, a ddylai gyfrannu at dalu costau craidd unrhyw gorff rhanbarthol newydd.

Hoffem weld ychydig o eglurder o ran pa effaith y byddai newidiadau sylweddol i unrhyw Gyd-bwyllgor neu fframwaith yn y dyfodol, er enghraifft un yn seiliedig ar ôl troed y Fargen Ddinesig, er enghraifft, yn ei chael ar dîm craidd ERW a chyllidebau craidd ERW. Hoffem hefyd ddeall a fydd yn darparu'r math o arbedion y mae rhai o'r Awdurdodau Lleol, er enghraifft Castell-nedd Port Talbot a Cheredigion, wedi gofyn amdanynt. Rydym yn cydnabod bod 90% o gyllid cyfredol ERW yn mynd yn uniongyrchol i ysgolion, ond hoffem wybod ym mha ffordd y byddai consortiwm yn y dyfodol yn cynyddu'r swm hwnnw. Byddai peidio â chynyddu canran a lefel y cyllid uniongyrchol i ysgolion yn sicr o beidio â bodloni honiadau o ran 'gwerth am arian' sydd

wedi'u mynegi'n flaenorol. Byddai gennym ddiddordeb mewn deall sut y bydd symud o gonsortiwm â chwe aelod i gonsortiwm a fydd, o bosibl, yn llai, yn gallu cyflawni hynny.

Hoffem weld y sail dystiolaeth ar gyfer unrhyw gynigion newydd fel y gallwn ddeall y cymhelliant allweddol, gyda ffocws clir ar wella ysgolion. Rydym wedi cael gwybod bod yna ddarn o waith ar y gwersi a ddysgwyd ar y gweill ar hyn o bryd, a fydd yn amlinellu'r heriau sydd wedi wynebu'r consortiwm. Byddem yn croesawu cael cipolwg ar hwn pan fydd ar gael.

Gan fod yr agenda hon yn symud yn gyflym ac yn ansicr, cytunodd y Grŵp y gellid cynnal cyfarfod ychwanegol yn ystod y misoedd nesaf er mwyn cyfrannu at y trafodaethau ynghylch datblygu unrhyw fodel newydd. Felly, byddai cael gweld yr adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd yn golynnol ac yn cael ei werthfawrogi.

Edrychwn ymlaen at eich ymateb yn nodi eich meddyliau ynghylch cynnwys ein llythyr.

Yr eiddoch yn gywir,

**Y Cyng. Darren Price**
**Cadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW a Phwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin**
**daprice@carmarthenshire.gov.uk**